Rhifyn 04, Hydref 2018

NEWYDDION TAI LLOCHES

LLWYDDIANT GWOBRAU TAI LLOCHES

Aeth tenantiaid a staff tai lloches a nifer o wobrau gartref mewn digwyddiad dathlu Cartrefi Caerffili diweddar; a gynhaliwyd yn Llancaiach Fawr ar 13eg Medi.

Yn ystod y digwyddiad, cyhoeddwyd enillwyr ar gyfer Cystadleuaeth Garddio Tenantiaid a'r Gwobrau Trawsnewid Bywydau a Chymunedau. Roedd enillwyr tai lloches ac ail wobrau mewn nifer o gategoriau, yn cynnwys:

Gardd gymunedol tai lloches orau
Enillydd - Maesteg, Pentwyn-mawr Ail wobr - Tŷ Melin, Crospenmaen Trydydd wobr - Cwrt-y-cae-uchaf, Trecelyn.

Basged grog / pot /cynhwysydd gorau
2il wobr - Colleen Phillips,
Cwrt y Castell, Pont-y-waun.
3ydd - Steven Perkins,
Glynsyfi, Tredegar Newydd.

Gwobr Trawsnewid Bywydau a Chymunedau - Gwobr Unigol
Enillydd - Mike Barugh, Maesteg.
2il wobr - Gary Pritchard, Cwrt Alexandra, Ynys-ddu.

Gwobr Cyflogai'r Filltir Ychwanegol
Enillydd - Tîm Tai Pobl Hŷn.

Llongyfarchiadau i chi gyd!

Enillwyr gwobrau.

Cartrefi Caerffili
Caerphilly Homes

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

DYFODOL TAI POBL HŶN

Ar 12fed Medi, cymeradwyodd Cabinet y cyngor gynlluniau ar gyfer dyfodol tai pobl hŷn yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys nifer o gynlluniau tai lloches.

Cymeradwyodd y Cabinet argymhellion y Cabinet i ymgorffori **Cwrt Britannia**, Rhisga i mewn i raglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) sydd i'w chwblhau erbyn Mawrth 2020 ac, os yw'n ymarferol, datgomisiynu blociau allanol fflatiau yng **Nghlos Clwyd** (mae hyn yn golygu na fyddai'r fflatiau bellach yn ffurfio rhan o'r cynllun tai lloches ac y gellid eu dynodi fel llety i bobl hŷn). Bydd gwaith ymchwilio pellach ac ymgynghoriad tenantiaid yn cael ei wneud ar y dechrau i weld os fydd hyn yn ymarferol.

Cafodd argymhellion Swyddogion hefyd eu cymeradwyo ar gyfer ailfodelu **Tŷ Melin**, Croespenmaen i ddarparu 23 uned llety a gwneud gwelliannau SATC. Bydd **Ynyswen** ym Mhontllan-fraith hefyd yn cael ei ailfodelu, gan ddarparu 13 uned llety.

Cymeradwyodd y Cabinet argymhelliad i ail-ddosbarthu **Hafod- y-bryn**, Rhisga o dai lloches i lety dynodedig i bobl hŷn a llety anghenion cyffredinol yn amodol ar ymchwiliad y dichonoldeb technegol ac ymgynghori â thenantiaid.

Gwnaed penderfyniad i ddileu'r dosbarthiad gofal ychwanegol o **Gwrt Tredegar**, Crosskeys.

Mae hyn yn golygu bydd y cynllun yn troi'n ôl i dai lloches.

Ar hyn o bryd, mae gennym nifer fawr o gynlluniau tai lloches yn ardal Rhisga a Crosskeys, gyda nifer yn cynnwys nifer fawr o fflatiau un ystafell. Yn aml mae gennym nifer o eiddo gwag yn y cynlluniau hyn nad ydym yn gallu eu llenwi. O ganlyniad i'r materion hyn, a'r anawsterau wrth ailfodelu rhai o'r cynlluniau , gwnaed penderfyniad gan y Cabinet am y cau a gynlluniwyd o **Gwrt y Santes Fair** yn Rhisga, **Cwrt y Castell** ym Mhont-y-waun a **Thŷ Waunfawr House** yn Crosskeys. Bydd adeilad newydd arall yn cael ei ddatblygu o fewn yr ardal i ddisodli'r tri chynllun.

Mae tenantiaid ym mhob cynllun a effeithiwyd wedi cael gwybod am y penderfyniadau a chynhelir cyfarfodydd ym mhob un o'r cynlluniau hyn i roi mwy o fanylion ar yr hyn a fydd yn digwydd a phryd. Gall tenantiaid sydd â chwestiynau neu bryderon gysylltu â'r Tîm Tai Pobl Hŷn ar 01443 811431.

Y DIWEDDARAF AR DALIADAU GWASANAETH

Mae llythyrau sy'n cynnwys manylion taliadau gwasanaeth eleni wedi'u hanfon allan a dylai'r holl denantiaid fod wedi derbyn eu copi.

Os nad ydych wedi derbyn eich llythyr neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Tîm Tai Pobl Hŷn ar 01443 811431.

Beth allaf ei ailgylchu?

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Papur	Plastig	Tuniau	Cardbord	Gwydr

Os oes gennych fin brown ar gyfer ailgylchu - rhowch eitemau yn rhydd yn y bin a pheidiwch â rhoi eitemau mewn bagiau.

PEIDIWCH â rhoi yr eitemau a restrir isod yn eich cynhwysydd ailgylchu:

Pecynnau creision

Tecstilau

Teganau a phlastig caled

Clytiau

Baw anifeiliaid

Bagiau du

Eitemau trydanol

Gwastraff gardd

Gwastraff bwyd

Bagiau plastig a ffilm blastig/lapio

Gellir cymryd yr eitemau canlynol i un o'n canolfannau ailgylchu gwastraff tai:

offer bach	disgiau	metel sgrap	plastig
batris	tetrapak	tecstiliau	gwastraff gardd

Gall methu ag ailgylchu neu osod deunyddiau anaddas yn eich cynhwysydd ailgylchu arwain at erlyniad.

ailgylchwch am Gaerffili

www.caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 866533

1136/13

OS YDYCH YN AMAU, CADWCH NHW ALLAN

Mae'r system mynediad drws sydd wedi'i osod yn eich cynllun yna i'ch diogelu a'ch cymdogion. Peidiwch â gadael i unrhyw un gael mynediad i'r cynllun oni bai eu bod yn ymweld â chi ac rydych yn eu disgwyl. Dylai ymwelwyr ond gael mynediad gan y tenant maent yn ymweld ag ef/hi. Mae hyn yn helpu i'ch amddiffyn a'ch cymdogion rhag galwyr di-groeso.

Dylai holl staff y cyngor neu gontractwyr sydd wedi cael eu penodi gennym gario cerdyn adnabod ac ni fyddent yn poeni os ydych yn gofyn i'w weld. Hefyd, byddwch yn ymwybodol na ddylai neb o'n staff neu ein contractwyr fyth ofyn i chi dalu am atgyweiriadau neu welliannau a wneir yn eich cartref.

Os ydych chi'n poeni am unrhyw alwyr i'ch cartref neu'ch cynllun tai lloches, peidiwch â chaniatáu mynediad iddynt a chysylltwch â'r Tîm Tai Pobl Hŷn ar 01443 811431.

ANIFEILIAID ANWES MEWN TAI LLOCHES

Mewn cynlluniau tai lloches lle nad oes coridorau cymunedol, er enghraifft byngalos neu fflatiau cerdded i fyny atynt lle mae gan bob eiddo ei drws ffrynt ei hun, gall tenantiaid gadw un anifail anwes domestig. Rhaid i denantiaid sy'n byw mewn tai lloches sy'n cyfuno gyda choridorau cymunedol ofyn i'w swyddfa tai lleol am ganiatâd y landlord i gadw anifeiliaid anwes.

Ni chaniateir i anifeiliaid anwes grwydro'n rhydd mewn unrhyw ardal gymunedol, gan gynnwys gerddi, ac nid oes caniatâd iddynt mewn mannau lolfa gymunedol, heblaw am gŵn tywys neu gymorth. Rhaid cadw cŵn ar dennyn byr wrth fynd i mewn i neu adael unrhyw ardd gymunedol a bod gyda'i perchnogion bob amser.

Rhaid i berchnogion gymryd cyfrifoldeb llawn am lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes a rhaid iddynt sicrhau nad ydynt yn achosi niwsans na aflonyddwch i breswylwyr neu ymwelwyr eraill.

MAE MIKE YN TRAWSNEWID BYWYDAU A CHYMUNEDAU

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae Mike Barugh wedi codi dros £2,500 ar gyfer elusennau cancr trwy nifer o ddigwyddiadau mae wedi'i drefnu yng nghynllun tai lloches Maesteg ym Mhentwyn-mawr, lle mae'n byw gyda'i wraig Glenys. Gyda'i gilydd mae Mr a Mrs Barugh wedi cynnal te'r prynhawn, gwerthiannau bwrdd, rafflau a chystadlaethau gyda'r enillion yn elwa elusennau cancr Macmillan a Velindre.

Daeth Mr Barugh yn awyddus i godi arian ar gyfer elusennau ar ôl derbyn diagnosis cancr ei hun yn 2013. Er gwaethaf ei broblemau iechyd, mae Mr Barugh hefyd yn arddwr brwd. Mae'n gweithio gyda thenantiaid eraill ym Maesteg i drawsffurfio cynllun gardd gymunedol. Mae eu hymroddiad wedi cael ei wobrwyo gyda'r wobr gyntaf, am ddwy flynedd yn olynol, yn y categori 'Gardd Gymunedol Tai Lloches Gorau' yn ein cystadleuaeth garddio tenantiaid blynyddol.

Hefyd, fe wnaeth seremoni eleni weld Mr Barugh yn cyflwyno Gwobr Unigol Trawsnewid Bywydau a Chymunedau. Cafodd ei enwebu gan Swyddog Cyswllt Tenantiaid o'n tîm Safon Ansawdd Tai Cymru a oedd wedi creu argraff fawr arnynt oherwydd ei agwedd gadarnhaol a'i frwdfrydedd, a'i ymrwymiad i helpu eraill.

Os oes gennych gymydog anhygoel sy'n mynd y filltir ychwanegol i helpu eraill cysylltwch â Kelsey Watkins, Swyddog Cyfathrebu, ar 01443 864262 er mwyn eu cynnwys mewn rhifyn yn y dyfodol o'r cylchlythyr hwn.

Mike Barugh

FREE HOME EYE TESTS

Os nad ydych yn gallu cyrraedd yr optegydd, gallech gael prawf llygaid wedi ei wneud yng nghysur eich cartref eich hun. Cynhelir ymweliadau cartref gan optometryddion cymwys ac optegwyr dosbarthu ac mae pob prawf llygad yn rhad ac am ddim i gleifion 60 oed neu hŷn a'r rhai sydd ar fudd-daliadau cymwys y GIG.

Gall cleifion sydd â chraffter golwg llai na N6 neu waeth, hefyd gael Asesiad Golwg Gwan yn rhad ac am ddim. Bydd optegydd dosbarthu golwg gwan yn siarad â phob claf yn unigol am yr hyn y byddent yn hoffi fwyaf o help - gallai hyn fod yn darllen, edrych ar luniau, talu biliau, delio â meddyginiaethau neu hyd yn oed yn gweithio ar ddiddordebau. Gall y claf wedyn roi cynnig ar ddetholiad o gymhorthion gweledol isel fel chwyddaduron a gellir rhoi goleuadau tasg, ac unrhyw gymorth yr ystyrir ei fod yn fuddiol i'r claf, ar fenthyciad am ddim.

Cysylltwch â @Home Eyecare ar 033335 0068 i ddarganfod a ydych chi'n gymwys i gael prawf golwg

@home HEALTHCARE

MANYLION CYSWLLT DEFNYDDIOL

Tîm Tai Pobl Hŷn ..... **Ffôn: 01443 811431**
E-bost: olderpersonshousing@caerphilly.gov.uk

SWYDDFEYDD TAI LLEOL:

Eastern Valleys ..... **Ffôn: 01495 235974**
E-bost: eastvalleyaho@caerphilly.gov.uk

Cwm Rhymni Uchaf ..... **Ffôn: 01443 873535**
E-bost: urvaho@caerphilly.gov.uk

Parc Lansbury ..... **Ffôn: 02920 860917**
E-bost: lansburyparknho@caerphilly.gov.uk

Graig-y-rhaca ..... **Ffôn: 02920 853050**
E-bost: graigyrhaccanho@caerphilly.gov.uk

Adrodd am Atgyweiriad ..... **Ffôn: 01443 864886**
E-bost: dlopbe@caerphilly.gov.uk

Ymholiadau SATC ..... **Ffôn: 01443 866497**
E-bost: whqsenquiries@caerphilly.gov.uk

Cymorth Rhenti /Tenantiaeth ..... **Ffôn: 01443 811450**
E-bost: rhenti@caerffili.gov.uk

Argyfyngau allan o oriau ..... **Ffôn: 01443 875500**

Os ydych yn meddwl fod gollyngiad nwy ffoniwch **Wales and West Utilities** ar **0800 111 999**

Y DIWEDDARIAD AR GYFER CODI ARIAN

Llongyfarchiadau i denantiaid yn Nhrem-y-coetir, Wattsville, gwnaeth eu taith gerdded diweddaraf godi £196 ar gyfer y British Lung Foundation. Hoffai'r tenantiaid a gymerodd rhan ddiolch i aelodau'r tîm SATC a thafarn Crosskeys, Abertawe am ein noddi.

Da iawn hefyd i denantiaid yn Cwrt y Castell ym Mhont-y-waun a gododd £101.85 i'r Gymdeithas Strôc yn eu bore coffi diweddar.

Jean Sheldon, ein Uwch Swyddog Cymorth Hyblyg, hefyd godi sŵn anhygoel o £880 ar gyfer cymorth cancr Macmillan drwy eillio ei dillad yn ddewr!

Teithiau

Daeth nifer ohonoch ar nifer o dripiau a drefnwyd dros yr haf, gan gynnwys teithiau i Ddinbych-y-pysgod, Y Bari, Weston a Phorthcawl.

Y teithiau a gynlluniwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn yw:

14/11/18 - Pentref Manwerthu McArthur Glen, Pen-y-bont

05/12/18 - Marchnad Nadolig Caerloyw.

Rydym hefyd yn cynllunio nifer o sgyrsiau dros y misoedd i ddod gan gynnwys atal troseddau, diogelwch tân ac atal cwympiadau.

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r teithiau hyn, neu os oes gennych awgrymiadau ar gyfer lleoedd yn y dyfodol i ymweld â, cysylltwch â Victoria Roper, Cydlynydd Gweithgareddau, ar 01443 866449.

Y DIWEDDARAF AR RAGLEN GWELLA SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC)

SATC yn parhau i symud ymlaen yn dda iawn, erbyn hyn rydym wedi cwblhau gwaith mewn 8 cynllun gan gynnwys Cwrt Horeb yn Nhrinant, Waunrhydd yn Gelligaer a'r Willows, Bedwas.

Mae gwaith yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yng Nghwrt Gwyddon yn Abercarn, Maesteg ym Mhentwyn-mawr ac Oaklands, Bargod. Mae gwaith hefyd yn parhau yn Nhrem-y-coetir yn Wattsville. Mae Hazel Vaux a Gloria Dalton, y ddwy yn denantiaid yn Nhrem-y-coetir sydd wedi cael gwelliannau mewnol yn ddiweddar a gwblhawyd gan ein tîm mewnol fel rhan o'r rhaglen.

Fe wnaeth cartref Mrs Vaux fuddio o gegin, ystafell ymolchi newydd, ac ailweirio trydanol. Dywedodd hi "Rydw i wedi cael fy nghegin a'r ystafell ymolchi wedi eu hail-wneud yn llwyr drwy'r rhaglen ac ni allaf weld bai ar y gwaith. Rwy'n arbennig o hapus gyda'r llawr newydd sydd wedi cael ei osod. Roedd yr holl staff oedd yn gweithio yma wir yn gynorthwyol."

Roedd gwelliannau yn fflat Mrs Dalton yn cynnwys cegin newydd, gwaith i'r ystafell ymolchi ac ailweirio trydanol. Dywedodd Mrs Dalton "Rwy'n falch iawn o'r gwaith SATC sydd wedi'i wneud yma hyd yn hyn, yn Nhrem-y-coetir. Anfonais gerdyn i ddiolch i'r gweithlu; roeddent yn ei haeddu am eu gwaith caled.

Mae'r cynlluniau a gynlluniwyd i ddechrau derbyn gwelliannau eleni yn cynnwys Tŷ Mynyddislwyn, Pontllan-fraith a Chwrt Santes Gwladys, Bargod.

YDY EICH CARTREF YN DDIOGEL?

Oeddech chi'n gwybod y gallech chi gael ymweliad i weld os ydych yn DDiogelam ddim yn eich cartref gan ddiffoddwyr tân oddi wrth eich Gorsaf Dân lleol a Thîm Diogelwch Cartref Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r ymweliad yn cymryd tua 30 munud; yn ystod y cyfnod hwn bydd eich cartref yn cael ei archwilio ar gyfer diogelwch tân, cewch gyngor achub bywyd ar beryglon tân, beth i'w wneud os bydd tân a sut i wneud cynllun dianc rhag tân.

I ddarganfod mwy ewch i www.southwales-fire.gov.uk, siaradwch â'ch Swyddog Tai Lloches neu cysylltwch â'r Tîm Tai Pobl Hŷn ar 01443 811431.

Newyddion Fforwm 50+

Ar hyn o bryd mae aelodau'r Fforwm 50+ Caerffili yn ymweld â grwpiau pobl hŷn yn y fwrdeistref sirol i ddarparu gwybodaeth am yr hyn y gall y Fforwm ei gynnig i bobl.

Os ydych chi'n perthyn i sefydliad, cymdeithas, clwb neu grŵp sydd â diddordeb mewn darganfod mwy am y Fforwm 50+ cysylltwch â Mandy Keenan ar 01443 864277 neu e-bostiwch 50plusforum@mail.com.

Yn ogystal â dweud wrthych am y Fforwm, y pethau maent wedi bod yn eu gwneud a beth y gallent ei wneud yn y dyfodol, byddent hefyd wrth eu bodd yn trafod yr hyn yr hoffech iddynt ei wneud. Mae'r Fforwm nawr yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion y cyngor a'r Hyrwyddwr Pobl Hŷn, Cyng. Barbara Jones, i edrych lle mae nodau gall gael eu cyflawni ar y cyd.

OVER 50 CAERPHILLY NATTER THAT MATTERS | DROS 50 CAERFFILI SGWRS O BWYS

Dyddiad ar gyfer eich dyddiaduron…

Cynhelir digwyddiad nesaf 'Rhannwch Wên' Caerffili dros 50 ar 1af Tachwedd yn Ysgol Lewis i Fechgyn ym Mhengam. Mae hwn yn ddigwyddiad am ddim sy'n cynnwys adloniant, dawnsio a the'r prynhawn; i archebu lle ffoniwch 07561 826972.

Chwilair

A	N	H	W	B	RH	I	D	G	H	C
B	R	T	G	E	Y	I	O	P	T	O
N	A	C	R	D	M	T	S	G	N	E
Y	C	A	G	W	N	H	Y	G	H	D
L	R	T	W	A	I	T	I	D	A	D
E	E	FF	I	S	B	D	R	G	CH	U
C	B	A	R	G	O	D	D	H	S	O
E	A	R	H	B	I	W	Y	U	N	N
R	DD	P	C	R	G	H	RH	B	PH	Y
T	U	D	O	CH	W	H	C	A	L	B
D	I	A	F	G	T	PH	P	FF	B	S

Dewch o hyd i enwau llefydd bwrdeistref sirol Caerffili yn y chwilair.

Geiriau i ddod o hyd iddynt:

Fochriw
Rhisga
Trecelyn
Abercarn
Bargod
Rhydri
Coed Duon
Rhymni
Bedwas

NEWYDDION TAI LLOCHES: RHIFYN 4